**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Perfformiad Craffu - Gwasanaethau I Oedolion

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Mawrth, 2 Mai 2023 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd S M Jones (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C L Philpott | C A Holley | A J Jeffery |
| J W Jones | E T Kirchner | |

**Hefyd yn Bresennol**

| | |
|---|---|
| Louise Gibbard | Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Gofal |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Amy Hawkins | Pennaeth y Gwasanaethau i Oedolion a Threchu Tlodi |
| David Howes | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Liz Jordan | Swyddog Craffu |
| Sarah Lackenby | Pennaeth y Gwasanaethau Digidol a Chwsmeriaid |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wy): P R Hood-Williams a/ac Y V Jardine
Aelodau Cyfetholedig(wyr): T Beddow
Swyddog(ion): Helen St John

---

## 1 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol

Datganodd Chris Holley gysylltiad personol.

## 2 Gwahardd pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau

Ni wnaed unrhyw ddatganiadau.

## 3 Cofnodion y Cyfarfod(ydd) Blaenorol

Cytunodd y panel fod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Mawrth 2023 yn gofnod cywir o'r cyfarfod.

## 4 Cwestiynau gan y cyhoedd

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

## 5 Adroddiad Blynyddol am Gwynion y Gwasanaethau I Oedolion 2021-22

Roedd Louise Gibbard, Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Gofal a Sarah Lackenby, Pennaeth y Gwasanaethau Digidol a Chwsmeriaid yn bresennol ar gyfer yr eitem hon ac atebwyd cwestiynau'r Panel.

Pwyntiau i'w trafod:

- Dywedodd Aelod y Cabinet fod yr adroddiad ar gyfer 2021/22, felly mae effaith COVID yn amlwg iawn, fodd bynnag, nid oedd wedi arwain at gynnydd sylweddol mewn cwynion. Mae'n bwysig hefyd nodi'r ganmoliaeth a dderbyniwyd.
- Holodd y panel sut mae'r broses gwynion yn gweithio. Clywyd bod y broses ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi'i diffinio mewn deddfwriaeth, felly mae'n benodol iawn ac yn broses eithaf manwl a hir.
- Holodd y Panel pam y mae COVID wedi effeithio'n fwy ar y Gwasanaethau i Oedolion na'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd. Clywyd bod y gallu i ddarparu gofal uniongyrchol ac effeithiau dramatig ar y gweithlu wedi cael gwahanol effeithiau yn y Gwasanaethau i Oedolion a'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd.  Hefyd, mae'r Gwasanaethau i Oedolion yn cael eu heffeithio'n llawer mwy gan bwysau o'r gwasanaeth iechyd.

## 6 Y diweddaraf am sut mae ymrwymiadau polisi'r cyngor yn cael eu rhoi ar waith yn y Gwasanaethau I Oedolion

Roedd Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Gofal, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol a Phennaeth y Gwasanaethau i Oedolion a Threchu Tlodi hyn bresennol ar gyfer yr eitem hon.

Pwyntiau i'w trafod:

- Nododd y Panel nad oedd digartrefedd yn cael ei grybwyll yn yr adroddiad, a'r rheini a all fod yn dioddef o gamddefnyddio cyffuriau neu alcohol a holodd a oedd unrhyw beth yn cael ei wneud i helpu o ran digartrefedd. Daw digartrefedd a hysbysir gan drawma o dan bortffolio Trawsnewid Gwasanaethau ond mae'n gorgyffwrdd â'r Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gwasanaethau i Oedolion.Clywyd bod eitem (8) sef y diweddaraf am Adolygiadau Comisiynu, yn sôn am lwybr llety dros dro ar gyfer cymorth digartrefedd, sy'n rhan o weithgarwch a gomisiynwyd gan y Gwasanaethau i Oedolion. Cynigiodd Aelod y Cabinet gylchredeg adroddiadau ar dai a digartrefedd sydd wedi'u cyflwyno i bwyllgorau eraill i'r Panel.
- Gofynnodd y Panel a oedd unrhyw gynlluniau i ailedrych ar y cyfnod cymhwyso a'r gofynion mynediad ar gyfer gofal seibiant a phreswyl. Clywyd ei fod i gyd yn rhan o'r rhaglen trawsnewid, a fydd yn edrych ar y defnydd o wasanaethau dydd ac ailgomisiynu ac edrych ar y dull a ddefnyddir o ran cyfleoedd dydd. Mae'n bosib y bydd meini prawf yn cael eu hystyried ond nid ydynt yn rhagweld y bydd unrhyw newidiadau. Hefyd, o ran seibiant wedi'i gynllunio nid oes unrhyw newidiadau wedi'u cynllunio.

Camau Gweithredu:

- Adroddiadau ar dai a digartrefedd i'w dosbarthu i'r Panel er gwybodaeth.

## 7 Y Diweddaraf am Gynnydd yr Adolygiadau Comisiynu

Cyflwynodd Amy Hawkins, Pennaeth y Gwasanaethau i Oedolion a Threchu Tlodi ddiweddariad ar y mater hwn.

Pwyntiau i'w trafod:

- Mae'r panel yn teimlo nad oedd pob adolygiad comisiynu gwreiddiol yn llwyddiannus ac mae cyfle nawr i ailedrych arnynt, yn enwedig gwasanaethau seibiant a gofal dydd. Dywedwyd wrthynt fod pethau wedi newid ac o ran gwasanaethau dydd, maent yn hynod werthfawr ond nid yw pawb eisiau'r model gwasanaeth dydd traddodiadol. Mae angen edrych ar sut y gall y gwasanaeth gyflawni, defnyddio Cydlynwyr Ardaloedd Lleol a gwneud defnydd o bethau yn y gymuned.
- Cadarnhaodd swyddogion nad ydynt yn edrych arno yr un ffordd ag ar gyfer adolygiadau comisiynu blaenorol. Gwneir hyn drwy'r rhaglen trawsnewid, y rhaglen wella a'r cylch comisiynu.
- Mae'r adroddiad yn nodi bod gwaith ar gomisiynu adolygiad o'r gwasanaeth arlwyo wedi'i gwblhau ym mis Rhagfyr 2019. Holodd y panel a gafodd y gwaith hwn ei gwblhau o ystyried y pandemig ar y pryd, ac os felly, a yw wedi'i ddiwygio ers hynny. Cadarnhawyd ei fod wedi'i gau fel adolygiad comisiynu a'i fod wedi'i sefydlu fel model busnes fel arfer ym mis Rhagfyr 2019 ac mae'r arbedion effeithlonrwydd a ganfuwyd i gyd wedi'u rhoi ar waith.
- Holodd y Panel pa allu sydd gan y cyngor yn fewnol i gefnogi rhyddhau pobl o'r ysbyty drwy wasanaeth camu i fyny camu i lawr, ac a yw'r sector preifat yn cael ei ddefnyddio os nad oes gan y cyngor y gallu, neu a yw'r sector preifat eisoes yn cael ei ddefnyddio. Cawsant wybod bod tua 150 o welyau ar draws yr holl wasanaethau - cymysgedd o ofal seibiant wedi'i gynllunio, cymhleth hirdymor, ailalluogi a lleoliadau camu i fyny camu i lawr dros dro. Ar hyn o bryd mae gwelyau dros dro'n cael eu defnyddio ar draws yr holl wasanaethau preswyl i ddarparu cymorth gyda phwysau mewn ysbytai. Rydym yn ailedrych ar hyn nawr i weld a yw hwn yn gynllun tymor hir.

## 8 Adolygiad Panel y Flwyddyn 2022-23

Adolygodd Aelodau'r Panel y flwyddyn 2022/23 ar y Panel Gwasanaethau i Oedolion a gwnaethant y sylwadau canlynol:

Beth aeth yn dda?

- Mae ymgysylltu â swyddogion Gwasanaethau Cymdeithasol ac Aelodau'r Cabinet wedi bod yn dda. Mae Aelodau'r Cabinet a'r Cyfarwyddwr wedi bod yn bresennol yn y rhan fwyaf o gyfarfodydd.
- Mae swyddogion Gwasanaethau Cymdeithasol ac Aelod y Cabinet wedi bod yn gwbl onest gyda'r Panel.
- Mae ansawdd y cyflwyniadau wedi gwella'n sylweddol dros y flwyddyn. Mae hyn wedi ei gwneud yn haws i'r Panel gael dealltwriaeth lawnach o'r egwyddorion y bu'n sôn amdanynt.

Beth, os o gwbl, y gellid ei wneud yn well?

- Angen edrych yn fanylach ar rai o'r eitemau a godwyd e.e. adolygiadau comisiynu
- Mae pryderon ynghylch darpariaeth Gwasanaethau Cymdeithasol gan yr Awdurdod i bobl. Pwysau ar bobl i ddarparu mwy a mwy drostynt eu hunain. Mae angen i'r Panel edrych yn fanylach ar y mater hwn.

Ydy gwaith y panel wedi canolbwyntio ar y pethau cywir?

- Mae'r panel o'r farn ei fod wedi canolbwyntio ar y pethau cywir.
- Angen cadw mewn cof y berthynas rhwng Iechyd a'r Gwasanaethau Cymdeithasol a sut mae hyn yn gweithio ac a oes unrhyw densiynau.

Beth rydym wedi'i ddysgu a fydd yn ein helpu i wella a datblygu gwaith craffu yn y dyfodol?

- Rôl y Panel yw gwirio a yw gweithrediad y cyngor yn deg ac yn gyfartal ac er budd pobl Abertawe.
- Fel Panel rydym yn gwrando ar bethau, rydym yn dadlau pethau, ac rydym yn deall beth yw pwrpas y Gwasanaethau Cymdeithasol yn hytrach na dibynnu ar swyddogion i ddweud wrthym beth mae'n ei olygu.
- Y budd a gafwyd drwy gyflwyno Cydlynwyr Ardaloedd Lleol. Mae'n ymddangos ei fod yn gweithio'n dda ac mae'n dda clywed hynny.
- Sut mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol wedi ymdopi yn ystod y cyfnod anodd hwn. Ni all y cyngor ddarparu popeth y byddai'n ei hoffi ond mae'n gweld swyddogion yn edrych o ddifrif ar faterion, ac nid yw'n ymwneud â chost yn unig, ond yr hyn sydd orau i'r unigolyn.
- Byddai cael mwy o aelodau yn ymuno â'r panel yn gwella'r broses graffu.

Daeth y cyfarfod i ben am 5.15 pm